C yngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

# HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

# MENTER SYBERDDIOGELWCH CYMRUSOC

Ysgrifennwyd yr hysbysiad hwn yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a'r ddeddfwriaeth berthnasol

**Tîm Llywodraethu Gwybodaeth**

**Lisa Richards**
Swyddog Diogelu Data

Y Ganolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN
data.protection@merthyr.gov.uk, 01685 725000

## 1. GWYBODAETH BWYSIG

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful sy'n gyfrifol am benderfynu sut rydym yn cadw ac yn defnyddio'r data personol a gasglwn. Mae'n ofynnol i ni o dan y ddeddfwriaeth diogelu data roi gwybod i chi am y wybodaeth a gynhwysir yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn. Nid yw'r hysbysiad hwn yn rhan o unrhyw gytundeb i ddarparu gwasanaethau. Gallwn ddiweddaru'r hysbysiad hwn ar unrhyw adeg ac, os gwnawn, byddwn yn sicrhau bod copi wedi'i ddiweddaru o'r hysbysiad hwn ar gael i chi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Mae'n bwysig eich bod yn darllen yr hysbysiad preifatrwydd hwn ynghyd â'n Polisi Safonau Preifatrwydd a'n hysbysiad preifatrwydd llawn sy'n cynnwys gwybodaeth fanylach am ein systemau prosesu data. Gellir ei weld ar ein gwefan.

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn esbonio sut mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, fel yr awdurdod contractio ar gyfer CymruSOC, yn casglu, yn defnyddio ac yn amddiffyn eich data personol mewn perthynas â menter seiberddiogelwch CymruSOC. Mae CymruSOC yn wasanaeth Canolfan Gweithrediadau Diogelwch (SOC yw'r talfyriad Saesneg) genedlaethol Cymru sy'n cynnwys amrywiol gyrff sector cyhoeddus Cymru, gan gynnwys Cynghorau, y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a'r Heddlu. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn bartner annatod i CymruSOC. Sefydlwyd CymruSOC i fonitro ac ymateb i fygythiadau seiberddiogelwch ledled Cymru trwy weithio gyda chyrff sector cyhoeddus Cymru; bydd CymruSOC yn rhannu gwybodaeth am fygythiadau gyda sefydliadau partner, gan gynnwys y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (NCSC), i helpu i nodi ac atal digwyddiadau seiberddiogelwch; fe'i sefydlwyd i amddiffyn y seilwaith hanfodol a'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru rhag aflonyddwch a achosir gan fygythiadau seiber, a bydd yn cynorthwyo'r sefydliad partner i gydymffurfio â chyfreithiau a safonau seiberddiogelwch.

## 2. PWY YDYM NI

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yw rheolwr data'r wybodaeth bersonol sy'n ymwneud â thrigolion Merthyr Tudful, felly rydym yn gyfrifol am y data personol sydd gennym. Mae'r Cyngor yn cynnwys gwahanol adrannau, a gellir dod o hyd i fanylion amdanynt ar ein gwefan. At ddibenion yr hysbysiad preifatrwydd hwn, mae cyfeiriadau at 'yr Adran' yn ymwneud yn benodol ag Adran Dechnoleg Gwybodaeth y Cyngor, sy'n gweithredu o fewn y Gyfarwyddiaeth Gyllid.

Mae'r Adran yn gyfrifol am reoli ac anfon data seiberddiogelwch perthnasol ymlaen i CymruSOC. Mae hwn yn cynnwys data o system SIEM (Rheoli Gwybodaeth Diogelwch a Digwyddiadau) y Cyngor. Mae'r system SIEM yn casglu ac yn dadansoddi data digwyddiadau log o bob rhan o seilwaith Technoleg Gwybodaeth y Cyngor i ganfod, cydberthyn ac anfon rhybuddion ynghylch bygythiadau diogelwch posibl. Rhennir y data hwn gyda'r SOC i gefnogi gweithgareddau monitro amser real, ymateb i ddigwyddiadau a gwybodaeth am fygythiadau.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi penodi Swyddog Diogelu Data y gellir cysylltu â hi gan ddefnyddio'r manylion ar frig yr hysbysiad hwn.

## 3. PA DDATA PERSONOL SY'N CAEL EI DDEFNYDDIO

Efallai y byddwn yn casglu, defnyddio, storio a throsglwyddo gwahanol fathau o ddata personol sydd wedi'i gynnwys yn systemau SIEM y Cyngor. Mae'r data'n cael ei gasglu o wahanol systemau ar draws seilwaith TG y Cyngor. Er nad yw'n casglu data personol yn uniongyrchol, bydd y system SEIM yn cipio dynodwyr anuniongyrchol sy'n cael eu trosglwyddo i logiau'r system ar gyfer digwyddiadau diogelwch. Bydd y math o ddata personol a gipiwyd yn ymwneud ag unrhyw unigolyn sydd â chyfrif ar rwydwaith y Cyngor a chyfathrebiadau a dderbynnir yn electronig, a all gynnwys:

- Enwau defnyddwyr a chyfeiriadau e-bost, bydd hyn yn ymwneud â gweithwyr y Cyngor ac unrhyw unigolyn sydd wedi anfon cyfathrebiadau electronig at y Cyngor ac fe'i defnyddir er mwyn nodi pwy a gafodd fynediad i ba ddata neu system a phryd.

- Cyfeiriadau IP (cyfeiriad Protocol Rhyngrwyd), cânt eu casglu'n awtomatig gan systemau TG ac offer seiberddiogelwch fel rhan o fonitro rhwydwaith a system arferol i olrhain ffynhonnell gweithgaredd. Mae cyfeiriad IP yn cael ei neilltuo i bob dyfais sy'n cysylltu â rhwydwaith ac yn helpu i lwybro traffig rhwng dyfeisiau. Pan fydd defnyddiwr yn cysylltu â gwefan, system neu wasanaeth y Cyngor, caiff ei gyfeiriad IP ei gofnodi gan ein:
  - Gweinyddion gwe
  - Muriau tân
  - Llwybryddion
  - Gweinyddion dirprwyol
- Mae'r logiau hyn yn cael eu cynhyrchu'n awtomatig a'u storio mewn logiau system neu eu hanfon ymlaen i system SIEM. Mae'r cyfeiriad IP yn helpu i nodi ffynhonnell cais neu weithgaredd, sy'n hanfodol ar gyfer canfod ymddygiad amheus neu seiber-ymosodiadau.

- Dynodwyr Dyfeisiau, mae'r rhain yn nodweddion neu'n fetadata unigryw a all wahaniaethu un ddyfais oddi wrth un arall. Fel cyfeiriad MAC (Rheoli Mynediad Cyfryngau) mae hwn yn ddynodwr sy'n unigryw i bob cerdyn rhyngwyneb rhwydwaith sy'n galluogi'r SOC i nodi'r ddyfais ar y rhwydwaith.

- Mae casglu cyfeiriadau IP a dynodwyr dyfeisiau yn caniatáu i'r SOC olrhain tarddiad gweithgaredd amheus fel y gellir cymryd camau priodol yn erbyn y troseddwr, bydd yn helpu i ganfod ymdrechion mynediad heb awdurdod i'n systemau TG, bydd yn defnyddio data i gysylltu digwyddiadau ar draws ein systemau TG a galluogi'r Adran i ymateb yn gyflym i ddigwyddiadau seiber.

- Stampiau amser, a ddefnyddir i gofnodi pryd y digwyddodd digwyddiadau.

- Ymgeisiadau mewngofnodi a logiau dilysu a ddefnyddir i ganfod ymosodiadau grym brwd neu fynediad heb awdurdod.
- Logiau system a chymwysiadau – a all gynnwys gweithredoedd defnyddwyr neu negeseuon gwall sy'n gysylltiedig ag unigolion.

Mae casglu'r data a restrir uchod yn hanfodol ar gyfer canfod bygythiadau gan y bydd yn galluogi'r Cyngor i nodi ymddygiad anarferol neu amheus, fel ymdrechion mewngofnodi aflwyddiannus neu fynediad o leoliadau anhysbys. Mae'n galluogi'r cyngor i gychwyn ymateb i ddigwyddiad ac yn galluogi'r Adran i ymchwilio ac ymateb i doriadau diogelwch neu ymgais i ymyrryd. Bydd hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer materion archwilio a chydymffurfiaeth gan y bydd yn sicrhau ein bod yn cynnal cofnodion ar gyfer cydymffurfiaeth reoleiddiol ac archwiliadau mewnol. Bydd y data yn galluogi'r SOC i gwblhau dadansoddiad fforensig a fydd yn helpu'r sefydliadau partner i ddeall beth ddigwyddodd a sut i atal ailddigwyddiad. Yn olaf, bydd y data yn ein galluogi i ymgymryd â monitro amser real o'n seilwaith TG gan alluogi'r SOC i weithredu'n gyflym ar fygythiadau sy'n dod i'r amlwg.

## 4. SUT MAE EICH DATA PERSONOL YN CAEL EI GASGLU

Cesglir y data a ddisgrifir yn adran 3 gan bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau ar-lein, yn cysylltu â ni drwy e-bost, neu'n rhyngweithio â'n systemau digidol. Mae'r Adran yn rheoli'r system SIEM sy'n casglu ac yn cofnodi data digwyddiadau o waliau tân, gweinyddion, dyfeisiau terfyn, cymwysiadau, a seilwaith rhwydwaith. Mae'r data hwn yn cael ei hidlo a'i gydberthyn i nodi bygythiadau posibl ac yn cael ei drosglwyddo'n ddiogel i blatfform CymruSOC gan ddefnyddio sianeli wedi'u hamgryptio. Mae'r SOC yn prosesu'r data hwn i ganfod ac ymateb i ddigwyddiadau seiberddiogelwch. Mae mynediad i'r data hwn yn cael ei reoli a'i fonitro'n llym, a chynhelir logiau archwilio er mwyn atebolrwydd. Mae'r data personol yn cael ei gasglu a'i drosglwyddo i'r SOC drwy brosesau diogel ac awtomataig a reolir gan Adran Dechnoleg Gwybodaeth y Cyngor.

Byddwn yn casglu data personol ychwanegol yn ystod swyddogaethau busnes ein Cyngor a'r gwasanaethau a ddarparwn i chi drwy gydol eich cyswllt â ni. I gael rhagor o wybodaeth am sut mae eich data personol yn cael ei ddefnyddio mewn meysydd gwasanaeth eraill, ewch i'n tudalen we hysbysiad preifatrwydd.

## 5. SAIL GYFREITHIOL AR GYFER PROSESU

Byddwn ond yn defnyddio eich data personol lle mae'r ddeddfwriaeth diogelu data yn caniatáu i ni wneud hynny. Bydd y rhain yn cynnwys y darpariaethau a nodir o dan y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a lle bo hynny'n berthnasol Deddf Diogelu Data 2018. Byddwn yn defnyddio eich data personol yn yr amgylchiadau canlynol:

- Cymal 6(1)(c) a oedd yn ymwneud â rhwymedigaeth gyfreithiol i gydymffurfio â chyfreithiau seiberddiogelwch a diogelu data yn benodol:
- Mae Rheoliadau Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth (NIS) 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor weithredu arferion seiberddiogelwch cadarn sy'n ymwneud ag ymateb i ddigwyddiadau a'u canfod, parhad busnes a chynllunio a hefyd i gynnal archwiliadau a gwiriadau cydymffurfio rheolaidd ar ein systemau.
- GDPR y Deyrnas Unedig sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor weithredu "mesurau technegol a threfniadol priodol" i sicrhau lefel o ddiogelwch sy'n briodol i'r risg. Mae hyn yn cynnwys defnyddio amgryptio, gweithredu rheolaethau mynediad, cael profion a gwerthusiadau rheolaidd o fesurau diogelwch ac amddiffyn rhag mynediad heb awdurdod a thorri data.
- Mae Deddf Diogelu Data 2018 yn ategu GDPR y Deyrnas Unedig ac yn atgyfnerthu'r gofyniad i'r Cyngor ddiogelu gwybodaeth bersonol, gan gynnwys yr hyn sy'n cael ei storio o fewn seilwaith Technoleg Gwybodaeth. Mae'n gorchymyn atebolrwydd a llywodraethu, gan gynnwys yr angen am asesiadau risg a pholisïau diogelwch.

- Cymal 6(1)(e) a oedd yn ymwneud â thasg gyhoeddus ac yn cynnwys unrhyw swyddogaethau sydd er budd y cyhoedd neu sy'n arfer awdurdod swyddogol, yn benodol:
  - fframweithiau fel canllawiau'r NCSC a'r cynllun Hanfodion Seiber sydd wedi'u mabwysiadu gan y Cyngor er mwyn cydymffurfio â safonau ymarfer diogelwch gwybodaeth a diogelu data

Cymal 6(1)(f) sy'n ymwneud â'n buddiannau cyfreithlon (neu rai trydydd parti) ar yr amod nad yw eich buddiannau a'ch hawliau sylfaenol yn gorbwyso'r buddiannau hynny.

## 6. RHANNU EICH GWYBODAETH BERSONOL

O dan GDPR y Deyrnas Unedig a Deddf Diogelu Data 2018, rhaid i'r Cyngor fodloni gofynion llym wrth rannu data personol. Mewn perthynas â CymruSOC, mae'r Cyngor wedi penodi prosesydd data i ddarparu'r gwasanaeth, o'r enw Socura. Mae Socura yn gwmni seiberddiogelwch yn y DU sy'n arbenigo mewn gwasanaethau canfod ac ymateb rheoledig. Mae Socura yn gweithredu'r SOC ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a sefydliadau sector cyhoeddus eraill Cymru sy'n cymryd rhan.

Fel y prosesydd dynodedig, mae Socura yn gyfrifol am:
• Derbyn a dadansoddi data SIEM gan sefydliadau sy'n cymryd rhan
• Monitro bygythiadau a gwendidau seiberddiogelwch
• Ymchwilio i ddigwyddiadau ac ymateb iddynt, a
• Rhannu gwybodaeth berthnasol am fygythiadau gyda phartneriaid dibynadwy fel yr NCSC.

Mae Socura yn gweithredu'n llym o dan gyfarwyddiadau'r rheolwyr data (Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a sefydliadau eraill sy'n cymryd rhan) ac mae wedi'i rwymo'n gyfreithiol gan gytundeb prosesu data ffurfiol sy'n cynnwys rhwymedigaethau cyfrinachedd, diogelwch a thrin data. Mae llawer o gyfranogwyr i CymruSOC sy'n cynnwys awdurdodau lleol eraill a sefydliadau sector cyhoeddus ledled Cymru. Mae pob sefydliad sy'n cymryd rhan yn gyfrifol am y data personol y mae'n ei brosesu mewn perthynas â Menter Seiberddiogelwch CymruSOC.

Fel rhan o ddarparu gwasanaethau, bydd y Cyngor a Socura yn rhannu'r data â Llywodraeth Cymru am resymau ystadegol a dadansoddi. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn defnyddio data personol a gedwir gennym i reoleiddio sut rydym yn cyflawni ein swyddogaethau cyhoeddus.

Ni fyddwn yn trosglwyddo eich data i unrhyw wledydd y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd oni bai bod y bygythiad seiberddiogelwch yn ei gwneud yn ofynnol i ni wneud hynny. O dan yr amgylchiadau hynny, bydd pob agwedd ar y prosesu'n cael ei chwblhau yn unol â darpariaethau perthnasol y deddfau a'r rheoliadau diogelu data a seiberddiogelwch.

## 7. AM BA MOR HIR BYDDWN YN CADW EICH GWYBODAETH BERSONOL

Dim ond cyhyd ag sydd ei angen i gyflawni'r dibenion y gwnaethom ei gasglu y byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol, gan gynnwys at ddibenion bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol, cyfrifyddu neu adrodd. Bydd data personol a brosesir gan CymruSOC yn cael ei gadw am y cyfnodau cadw canlynol:

- Logiau diogelwch a metadata rhwydwaith – cedwir y rhain am hyd at 2 flynedd gan eu bod yn cael eu defnyddio i gefnogi canfod bygythiadau, archwilio ac ymchwiliadau fforensig.
- Adroddiadau digwyddiadau a chofnodion ymchwiliadau – cedwir y rhain am hyd at 7 mlynedd lle maent yn gysylltiedig ag achosion cyfreithiol, rheoleiddio neu ddisgyblu.
- Logiau mynediad defnyddwyr a data dilysu – yn gyffredinol cedwir y rhain am hyd at 2 flynedd, ond yn dibynnu ar bwysigrwydd a risg y system, gellir eu cadw am hyd at 7 mlynedd.
- Gwybodaeth am fygythiadau a dangosyddion cysylltiedig – cedwir y rhain cyhyd ag y maent yn berthnasol i weithrediadau seiberddiogelwch parhaus.

Noder, ni fydd y cyfnodau cadw uchod yn berthnasol i unrhyw ddata nad yw'n cynnwys gwybodaeth bersonol.

Ar ôl i'r dyddiadau cadw ddod i ben, bydd eich data personol yn cael ei ddinistrio'n ddiogel. Mae manylion cyfnodau cadw ar gyfer gwahanol agweddau ar eich data personol ar gael yn ein Polisi Rheoli Cofnodion sydd ar gael ar ein gwefan (www.merthyr.gov.uk).

## 8. Y MODD YR YDYM YN CADW EICH GWYBODAETH BERSONOL YN DDIOGEL

Rydym wedi gweithredu mesurau diogelwch priodol i atal eich data personol rhag cael ei golli, ei ddefnyddio, ei gyrchu, ei newid neu ei ddatgelu mewn ffordd anawdurdodedig. Rydym yn cyfyngu mynediad at eich data personol i'r gweithwyr hynny sydd ag angen gwybod oherwydd eu gwaith. Bydd ein gweithwyr yn prosesu eich data personol yn unol â'n cyfarwyddiadau ni yn unig, ac maent yn rhwym wrth ddyletswydd cyfrinachedd.

Rydym wedi rhoi gweithdrefnau ar waith i ddelio ag unrhyw doriad diogelwch data a amheuir a byddwn yn eich hysbysu chi ac unrhyw reoleiddiwr perthnasol o dorri a amheuir lle mae'n ofynnol yn gyfreithiol i ni wneud hynny. Gallwch ddarganfod mwy am sut rydym yn cadw'ch data personol yn ddiogel trwy gysylltu â'n Swyddog Diogelwch Gwybodaeth ar information.security@merthyr.gov.uk.

## 9. EICH HAWLIAU CYFREITHIOL

Mewn rhai amgylchiadau, mae gennych hawliau o dan gyfreithiau diogelu data mewn perthynas â'ch data personol. Mae'r rhain wedi'u hamlinellu yn y GDPR ac yn cynnwys:

- Yr hawl i gywiro – mae gennych yr hawl i ofyn i gywiro'ch gwybodaeth.
- Gall yr hawl i gyfyngu ar brosesu fod yn berthnasol – gallwch ofyn i ni roi'r gorau i brosesu eich data personol, fodd bynnag, gall hyn oedi neu ein hatal rhag darparu gwasanaeth i chi. Byddwn yn ceisio cydymffurfio â'ch cais ond efallai y bydd yn ofynnol i ni ddal neu brosesu gwybodaeth i gydymffurfio â'n dyletswyddau cyfreithiol.
- Yr hawl i wrthwynebu – nid yw hwn yn hawl absoliwt a bydd yn dibynnu ar y rheswm dros brosesu eich gwybodaeth bersonol.
- Yr hawl i ddileu - gallwch ofyn i ni ddileu eich data personol, fodd bynnag, gall hyn oedi neu ein hatal rhag darparu gwasanaeth, neu barhau i ddarparu gwasanaeth. Byddwn yn ceisio cydymffurfio â'ch cais ond efallai y bydd yn ofynnol i ni ddal neu brosesu gwybodaeth i gydymffurfio â'n dyletswyddau cyfreithiol.
- Yr hawl i beidio â bod yn ddarostyngedig i wneud penderfyniadau awtomataidd a phroffilio.
- Yr hawl i fynediad – mae gennych yr hawl i ofyn i ni am gopïau o'ch data personol. I wneud cais, cysylltwch â'r Tîm Llywodraethu Gwybodaeth.
- Yr hawl i gwyno – mae gennych yr hawl i gwyno i'r Swyddog Diogelu Data os nad ydych yn hapus â'r ffordd y mae'r Cyngor yn prosesu eich data personol. I gyflwyno cwyn cysylltwch â'r Tîm Llywodraethu Gwybodaeth gan ddefnyddio'r manylion a ddarperir ar frig yr hysbysiad preifatrwydd hwn.

Mae'n bwysig bod y data personol sydd gennym amdanoch yn gywir ac yn gyfredol. Rhowch wybod i ni os byddwch yn gwneud unrhyw newidiadau i'ch data personol fel y gallwn ddiweddaru ein cofnodion.

Os ydych am adolygu, gwirio, cywiro, gofyn i ddileu, gwrthwynebu, neu'n gofyn i ni drosglwyddo copi o'ch data personol i berson/ sefydliad arall, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data yn ysgrifenedig gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a ddarperir ar frig yr hysbysiad hwn.

## 10. MANYLION PELLACH

Mae gennych hefyd yr hawl i wneud cwyn ffurfiol ar unrhyw adeg i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, awdurdod goruchwylio'r Deyrnas Unedig ar gyfer materion diogelu data:

Cyfeiriad: Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Cymru), 2il Lawr, Tŷ Churchill, Ffordd Churchill, Caerdydd, CF10 2HH
E-bost: wales@ico.org.uk
Ffôn: 0330 414 6421

Os ydych chi'n chwilio am ragor o wybodaeth ynghylch sut yr ydym yn prosesu eich gwybodaeth bersonol gan gynnwys diogelwch data, cadw data, hawliau unigol, ewch i'n polisi preifatrwydd llawn. Gallwch hefyd gael gwybodaeth yn uniongyrchol o wefan Swyddfa'r Comisiynwyr Gwybodaeth, www.ico.org.uk.